**Alun Davies AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**
**Minister for Natural Resources and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Kevin Roberts

18 Gorffennaf 2012

**Adolygiad annibynnol o gryfder ffermio yng Nghymru.**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 15 Gorffennaf.

Rwy'n ddiolchgar i chi am eich holl waith hyd yma, ac am lunio argymhellion mor glir. Mae'n amlwg eich bod eisoes wedi casglu llawer iawn o dystiolaeth i gefnogi'ch canfyddiadau cychwynnol, a'ch bod wedi rhoi sylw mawr ar sicrhau bod eich cynigion ar gyfer y dyfodol yn rhai ymarferol. Rwy'n gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Mae'n bleser gennyf dderbyn eich argymhellion cyfamserol ac rwyf wedi gorchymyn fy swyddogion i weithio arnynt ar fyrder, yn enwedig i ddatblygu Cynllun generig ar gyfer Ymdrin â Hapddigwyddiadau. Fel y dywedwch yn eich llythyr, dyma bwnc rwyf innau wedi bod yn meddwl amdano dros y misoedd diwethaf ac rwy'n falch bod eich adroddiad yn cydnabod hyn ac yn rhoi'r eglurder sydd ei angen i fynd â'r cysyniad hwn yn ei flaen. Mae'r angen am gadernid a pharodrwydd yn agweddau rwyf wedi bod yn eu hystyried hefyd ar gyfer rhannau eraill fy mhortffolio a buaswn yn ddiolchgar pe baech yn rhoi o'ch profiad i gyfrannu at y gwaith ehangach hwn. Rwy'n gwybod y byddwch yn edrych yn fanylach ar y materion hyn wrth i'ch adolygiad fynd i'r cam nesaf, ac y byddwch yn helpu fy Adran gyda'i gwaith â rhanddeiliaid ar lawr gwlad. Bydd gen i ddiddordeb clywed mwy hefyd am botensial datblygu 'yswiriant trychinebau' ar gyfer y diwydiant. Rydym yn cytûn bod ymateb masnachol a doethach fel hwn yn ymateb gwell o lawer na disgwyl i'r trethdalwr dalu grantiau argyfwng ar ôl digwyddiad.

A finnau wrthi'n penderfynu ar y diwygiadau i'r PAC yng Nghymru ar gyfer 2015, mae'ch sylwadau ar y sefyllfa mwy tymor hir hefyd yn ddefnyddiol iawn, yn enwedig eich argymhelliad i ddatblygu pecyn o gymorth ar gyfer ffermwyr yr ucheldir fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig newydd. Mae hyn yn ategu'r cyngor a gefais gan Fforwm yr Ucheldir a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
English Enquiry Line 0845 010 3300
Correspondence.Alun.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

bydd yn rhan allweddol o'n rhaglen newydd o dan Golofn 2 y PAC. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn gallu gweithio gyda'm swyddogion yn ystod y cyfnod ymgynghori y byddaf yn ei lansio wythnos nesaf i'w helpu i ddatblygu syniadau ar gyfer creu pecyn o gymorth cyhoeddus ar gyfer ffermwyr yr ucheldir ar y naill law a dwysáu ein hymdrechion ar y llaw arall i helpu i greu model busnes mwy cynaliadwy a hyfyw ar gyfer y sector yn y dyfodol.

Rwy'n edrych ymlaen nawr at glywed am hynt eich gwaith ar gadernid cyffredinol ffermio wrth i ni fynd tua'r hydref, ac wrth i chi ystyried yn fanylach rai o'r pwyntiau rydych wedi'u codi. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich adroddiad terfynol ym mis Tachwedd.

Yn gywir

**Alun Davies AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food